**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled, gan:

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8009
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: sustainability.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

## Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Penodir y Pwyllgor Cynaliadwyedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ac adrodd ar faterion sy'n effeithio ar Newid Hinsawdd, Ynni, Materion Gwledig ac Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Chynllunio.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

## Aelodau'r Pwyllgor

| *Aelod y Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Joyce Watson | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Irene James | Llafur | Islwyn |
| Leanne Wood | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Angela Burns | Plaid Geidwadol Cymru | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Karen Sinclair | Llafur | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brynle Williams | Plaid Geidwadol Cymru | Gogledd Cymru |

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod y Cynulliad hwn:

| | | |
|---|---|---|
| Mick Bates | Democrat Rhyddfrydol Annibynnol | Sir Drefaldwyn |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Lesley Griffiths | Llafur | Wrecsam |
| Alun Ffred Jones | Plaid Cymru | Arfon |
| Elin Jones | Plaid Cymru | Ceredigion |
| Darren Millar | Plaid Geidwadol Cymru | Gorllewin Clwyd |

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ........ **5**

Cylch gwaith a chyfrifoldebau ........ 5

Gwaith a llwyddiannau ........ 6

**2. Yr Etifeddiaeth i'r Pwyllgor(au) nesaf** ........ **7**

Ffyrdd o Weithio ........ 7

Casglu Tystiolaeth ........ 7

Ymgynghorwyr arbenigol ........ 7

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ........ 7

Adroddiadau'r Pwyllgor ........ 8

Cynllunio ........ 8

Bioamrywiaeth ........ 9

Lleihau allyriadau carbon ........ 9

Gwaith arall y Pwyllgor ........ 10

Prif-ffrydio cynaliadwyedd ........ 10

Uno cyrff cyflenwi ........ 10

Materion trawiadol a sganio'r gorwel ........ 11

Gwastraff ac ailgylchu ........ 11

Cynhyrchu Ynni ........ 12

Targedau ........ 13

Rheoliadau adeiladu ........ 14

Erydu arfordirol / llifogydd llanw ........ 14

Deddfwriaeth y DU ........ 15

Y Bil Ynni ........ 16

Y Bil Lleoleiddio ........ 16

Y Bil Cyrff Cyhoeddus ........ 17

# 1. Cyflwyniad

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 10.50, sy'n caniatáu i bwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar faterion o fewn ei gylch gorchwyl, ac yn unol ag arfer sefydledig pan fydd Pwyllgorau'n cyhoeddi adroddiadau etifeddiaeth ar ddiwedd Cynulliad. Mae'r adroddiad yn rhoi amlinelliad o flaenoriaethau strategol a gweithgareddau gwaith y Pwyllgor yn ystod y Trydydd Cynulliad ac mae'n cynnwys materion allweddol y gallai'r Pwyllgor nesaf eu hystyried yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

2. Mae copïau o adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Cylch gwaith a chyfrifoldebau**

3. Sefydlwyd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 26 Mehefin 2007 fel un o bedwar pwyllgor craffu'r Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheol Sefydlog 12.

4. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cynaliadwyedd oedd ystyried a chyflwyno adroddiad ar y materion hynny sy'n effeithio ar newid hinsawdd, ynni, materion gwledig ac amaethyddiaeth, yr amgylchedd a chynllunio.

5. Ar 5 Gorffennaf 2007, sefydlwyd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i graffu ar feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad sy'n effeithio ar ddatblygu gwledig.

6. Mae'r Pwyllgor yn credu bod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi gwneud cyfraniad pwysig i helpu'r Cynulliad i roi sylw ac ystyriaeth ddyledus i faterion gwledig, ac estyn allan i fuddiannau gwledig. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai'r Pedwerydd Cynulliad ddangos yr un ymrwymiad i faterion gwledig gan roi proffil cymharol iddynt o fewn unrhyw strwythurau newydd sy'n cael eu creu.

7. Mae aelodaeth y Pwyllgor wedi newid sawl gwaith yn ystod cyfnod y Cynulliad. Ceir rhestr lawn o'r Aelodau presennol a'r cyn Aelodau ar ddechrau'r adroddiad hwn, ond mae'r Pwyllgor yn awyddus i gydnabod cyfraniad Mick Bates a Mike German.

8. Fel Cadeirydd cyntaf y Pwyllgor, cafwyd cyfraniad allweddol gan Mick wrth lywio rhaglen waith y Pwyllgor ac yn arbennig yr ymchwiliad

uchelgeisiol ar leihau allyriadau carbon. Bu Mike yn gwasanaethu fel Cadeirydd dros dro am gyfnod, ac yna fel Cadeirydd parhaol, a goruchwyliodd y gwaith o gyhoeddi'r adroddiad ar fynediad i ddŵr mewndirol a'r ymchwiliad i gynllunio.

**Gwaith a llwyddiannau**

9. Mae manylion o'r holl ymchwiliadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd, a'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd ganddo yn ystod y Trydydd Cynulliad ar gael ar wefan y Pwyllgor yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home.htm

10. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, ceisiodd y Pwyllgor sicrhau bod ei ymchwiliadau mor effeithiol â phosibl. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i nodi tri phrofiad yn arbennig a allai fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor nesaf – ceir amlinelliad o'r rhain yn yr adran 'Ffyrdd o Weithio' isod.

## 2. Yr Etifeddiaeth i'r Pwyllgor(au) nesaf

### Ffyrdd o Weithio

#### *Casglu Tystiolaeth*

11. Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i lifogydd yng Nghymru, defnyddiodd y Pwyllgor fws y Cynulliad i gasglu tystiolaeth gan bobl oedd â phrofiad uniongyrchol o lifogydd mewn gwahanol rannau o Gymru. Ymwelodd y bws â deuddeg o leoliadau gwahanol a chlywodd yr Aelodau dystiolaeth gan fwy na 200 aelod o'r cyhoedd am eu profiad hwy o lifogydd.

12. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr ymarfer hwn wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i'w ddealltwriaeth o effeithiau llifogydd ar gymunedau yng Nghymru, a oedd wedi galluogi'r Pwyllgor i ystyried tystiolaeth y tu hwnt i'r hyn y byddai'n ei gael fel arfer drwy ymgynghori ysgrifenedig ac ar lafar yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

13. **Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid cynnal yr ymarfer hwn eto yn y dyfodol, lle gall ymchwiliadau sy'n cynnwys profiadau personol y cyhoedd gyfrannu at ansawdd y dystiolaeth, a thrwy hynny, ddealltwriaeth y Pwyllgor o'r materion.**

#### *Ymgynghorwyr arbenigol*

14. Recriwtiodd y Pwyllgor ymgynghorwyr arbenigol allanol i'w gynghori ar dri o'i ymchwiliadau: lleihau allyriadau carbon, y Bil Morol a chynllunio.

15. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod cyfraniad yr ymgynghorwyr arbenigol i'r ymchwiliadau hyn wedi cynyddu eu dealltwriaeth o'r materion hyn yn sylweddol, ac wedi helpu i lywio gwaith yr Aelodau o ystyried y dystiolaeth a helpu'r Pwyllgor i lunio ei argymhellion.

16. **Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor nesaf ddefnyddio ymgynghorwyr arbenigol ar gyfer ymchwiliadau sy'n trin a thrafod materion technegol iawn, neu os mai dim ond arbenigedd cyfyngedig sydd gan y Pwyllgor.**

#### *Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig*

17. Sefydlodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar y dechrau i ystyried materion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a materion gwledig. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn derbyn sylw

digonol, rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall o bosibl, o ystyried y materion eang yr oedd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn gyfrifol amdanynt.

18. **Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniant hwn wedi bod yn llwyddiant, ac y dylai'r Pwyllgor nesaf ystyried sut y gellir rhoi sylw dyledus i amaethyddiaeth a materion gwledig yn ei raglen waith.**

**Adroddiadau'r Pwyllgor**

***Cynllunio***

19. Cyhoeddwyd adroddiad gan y Pwyllgor ar Bolisi Cynllunio ym mis Ionawr 2001, a oedd yn cynnwys 30 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Roedd y prif argymhellion fel a ganlyn:

- dylid cael Deddf Gynllunio i Gymru sy'n dod â'r holl ddeddfwriaethau cynllunio sy'n berthnasol i Gymru ynghyd;
- y dylai Polisi Cynllunio Cymru gynnwys datganiad clir o flaenoriaethau a sut y dylid datrys y gwrthdaro rhyngddynt;
- bod Llywodraeth Cymru'n gwneud mwy i annog proses o rannu a datblygu arbenigedd ar gynllunio, ac rydym wedi gwneud argymhellion manwl i'r perwyl hwn;
- adolygiad o rolau'r systemau cynllunio a rheoli adeiladau, sef y rheoliadau adeiladu gynt sy'n cael eu datganoli yn 2012;
- yr angen i gynnal prawf effaith ar unrhyw bolisïau cynllunio cenedlaethol newydd cyn iddynt gael eu cyflwyno;
- yr angen i gyflwyno canllawiau newydd i awdurdodau lleol ar sut y gall Ardaloedd Chwilio Strategol gael eu gwella gan Gynlluniau Datblygu Lleol;
- cais am amserlen gyhoeddedig o ddiwygiadau bwriadedig i'r polisi cynllunio a Nodiadau Cyngor Technegol er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr polisi;
- yr angen i adolygu rôl a swyddogaeth Cynllun Gofodol Cymru a'r ffordd y mae'n berthnasol i fframwaith y cynllun datblygu;
- y mater parhaus o ddatganoli cyfrifoldeb dros gydsyniadau ynni dros 60 Megawatt i Weinidogion Cymru.

20. Cafwyd ymateb gan y Llywodraeth ar 9 Mawrth, yn derbyn y rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen

gwaith craffu pellach yn nifer o'r meysydd hynny y mae Llywodraeth Cymru wedi honni ei bod eisoes wedi gweithredu arnynt.

21. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf edrych o'r newydd ar yr adroddiad ar gynllunio yng Nghymru, a chraffu ar waith y Llywodraeth newydd o weithredu'r argymhellion.**

### *Bioamrywiaeth*

22. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar fioamrywiaeth ym mis Ionawr 2011. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 19 o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar sut y gellid datblygu'r rhain i sicrhau bod y golled bioamrywiaeth a arweiniodd at fethiant Cymru i gyflawni targedau bioamrywiaeth 2010 yn cael eu gwrthdroi.

23. Er bod pob un o Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau'r UE wedi methu targedau 2010, mae'r Pwyllgor yn credu mai ei adroddiad yw'r unig adroddiad sydd wedi'i gyhoeddi ar y rhesymau dros y methiant hwnnw gan unrhyw gorff seneddol cenedlaethol neu ranbarthol yn yr UE gyfan.

24. Cafwyd ymateb gan y Llywodraeth ar 16 Mawrth, a oedd yn derbyn 15 o'r 19 o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

25. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd mwy o gyfrifoldeb yn y targedau bioamrywiaeth yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf edrych o'r newydd ar yr adroddiad ar fioamrywiaeth yng Nghymru, a chraffu'n rheolaidd ar waith y Llywodraeth newydd i weithredu'r argymhellion a'i chynnydd wrth geisio cyflawni targedau 2020.**

### *Lleihau allyriadau carbon*

26. Yr ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru yw'r darn o waith mwyaf sylweddol a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y Trydydd Cynulliad. Parhaodd y gwaith hwn o fis Medi 2007 i fis Hydref 2010.

27. Cyhoeddodd y Pwyllgor bum adroddiad adrannol a oedd yn edrych ar leihau allyriadau carbon yn y sectorau preswyl, trafnidiaeth, defnydd tir, diwydiant a chyrff cyhoeddus, ac ynni. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad terfynol a oedd yn cynnwys 11 o brif argymhellion trawsbynciol i Lywodraeth Cymru.

28. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yr un pryd â strategaeth lleihau allyriadau carbon Llywodraeth Cymru.

29. **Oherwydd perthnasedd lleihau allyriadau carbon i'r agendâu cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf graffu ar y ffordd y bydd y Llywodraeth newydd yn gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad, a'i pholisi cyffredinol ar leihau allyriadau carbon.**

## Gwaith arall y Pwyllgor

### *Prif-ffrydio cynaliadwyedd*

30. Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar 'Brif-ffrydio Cynaliadwyedd o fewn portffolios gweinidogol – 10 mlynedd o ddyletswydd statudol' yn dilyn sesiynau craffu gyda Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

31. Canfu'r Pwyllgor bod yr ymrwymiad i brif-ffrydio cynaliadwyedd yn cael ei weithredu'n anghyson ar draws y Llywodraeth, a gwnaed argymhelliad i bob Gweinidog archwilio eu portffolio eu hunain a sefydlu cysylltiadau amlwg rhwng eu cyfrifoldebau portffolio a datblygu cynaliadwy yn gyffredinol.

32. Cynhaliwyd sesiynau dilynol ym mis Ionawr a mis Chwefror 2011. Er bod y Pwyllgor wedi canfod bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ers ei ymchwiliad cychwynnol, roedd y gwaith gweithredu'n parhau i fod yn anghyson ac nid oedd rhai Gweinidogion yn sicr o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Felly, mae yna lawer o gynnydd i'w wneud o hyd wrth brif-ffrydio cynaliadwyedd ar draws holl adrannau'r Llywodraeth.

33. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i brif-ffrydio cynaliadwyedd. **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Pwyllgor nesaf yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd Llywodraeth Cymru tuag at brif-ffrydio cynaliadwyedd ar draws pob maes polisi a phortffolio polisi.**

### *Uno cyrff cyflenwi*

34. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys ailstrwythuro cyrff cyflenwi amgylcheddol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru fel rhan o'i hymgynghoriad ar fframwaith newydd ar yr amgylchedd 'Cymru Fyw' yn 2010. Mae darpariaethau sy'n rhoi

pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r cyrff cyflenwi amgylcheddol yn y Bil Cyrff Cyhoeddus sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth y DU.

35. Ystyriodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd oblygiadau posibl uniad o'r fath mewn dau sesiwn a gynhaliwyd yn ystod Gwanwyn 2011, a hefyd ystyriwyd y broses a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i lunio ei chynigion ac ymgynghori arnynt.

36. Canfu'r Pwyllgor bod llawer o ansicrwydd yn bodoli ynglŷn â bwriadau'r Llywodraeth a manylion ei chynigion a sut y byddai'r rhain yn gweithio.

37. Ni fydd cyhoeddiad terfynol ar yr uno yn cael ei wneud tan y Pedwerydd Cynulliad, ac **felly mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf edrych ar y mater o'r newydd ar ôl i Lywodraeth Cymru wneud cyhoeddiad ffurfiol ar ei phenderfyniad a'i chynigion manwl.**

38. **Efallai y bydd y Pwyllgor nesaf hefyd yn dymuno edrych ar y Fframwaith Newydd ar yr Amgylchedd yn fwy cyffredinol, yn arbennig yng nghyd-destun bioamrywiaeth (gweler uchod).**

## Materion trawiadol a sganio'r gorwel

### *Gwastraff ac ailgylchu*

39. Mae gwastraff ac ailgylchu yn fater pwysig iawn i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, ond yn anffodus, ni fu'n bosibl i ni gynnal ymchwiliad i'r mater hwn yn ystod y Trydydd Cynulliad oherwydd diffyg amser.

40. Cyhoeddwyd strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar wastraff 'Tuag at ddyfodol diwastraff' ym mis Mehefin 2010, ac mae'n cynnwys targedau ailgylchu o 70 y cant ar gyfer pob sector erbyn 2025 a chyflawni 'Dyfodol Diwastraff' erbyn 2050. Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn sefydlu targedau statudol ar gyfer y ganran o wastraff trefol awdurdodau lleol sy'n cael ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio. O fis Rhagfyr 2010 i fis Ionawr 2011, ymgynghorodd Lywodraeth Cymru ar reoliadau sy'n cyflwyno'r targedau, sut y byddant yn cael eu monitro a'r cosbau os na fydd awdurdodau lleol yn cydymffurfio â hwy.

41. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf graffu ar y ffordd mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni'r targedau hyn, ac edrych i weld a yw Llywodraeth Cymru yn neilltuo adnoddau digonol i gyflawni'r targedau hynny.**

42. Yn ystod Gwanwyn 2011, disgwylir i Lywodraeth Cymru gyflwyno ardoll ar fagiau siopa untro yng Nghymru. **Efallai y bydd y Pwyllgor nesaf yn dymuno cynnwys adolygiad o effaith ac effeithiolrwydd yr ardoll fel rhan o ymchwiliad ehangach ar wastraff ac ailgylchu, neu gynnal ymchwiliad byr ar wahân ar y mater. Mae'r materion a allai fod yn destun ymchwiliad yn cynnwys dosbarthu'r elw o'r ardoll, y bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i fanwerthwyr ei throsglwyddo i elusennau ac achosion da ar sail wirfoddol.**

***Cynhyrchu Ynni***

43. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi Ynni ym mis Mawrth 2010, a oedd yn amlinellu ei huchelgeisiau ar gyfer ynni carbon isel yng Nghymru. Ymhlith y ffynonellau eraill, roedd y datganiad yn tynnu ar ganlyniadau ymgynghoriadau ar y Map Llwybr Ynni Adnewyddadwy, y Cynllun Gweithredu Bio-ynni a'r Datganiad Polisi Ynni Morol Gweinidogol.

44. Gallai cynhyrchu ynni adnewyddadwy wneud cyfraniad arwyddocaol i ymrwymiad 'Cymru'n Un' Llywodraeth Cymru sef lleihau allyriadau carbon mewn meysydd datganoledig o 3 y cant y flwyddyn erbyn 2011.

45. Cafwyd cyfanswm o 19 o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd 'Lleihau allyriadau carbon wrth gynhyrchu ynni - pedwerydd adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i leihau allyriadau carbon yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2009. Yn ei hymateb, awgrymodd y Llywodraeth 'Yn arbennig rydym yn credu bod arfordir, tirwedd a hinsawdd Cymru yn golygu ei bod yn ymarferol o fewn 20 mlynedd i ni gynhyrchu mwy o drydan drwy ddulliau adnewyddadwy nag ydym yn ei ddefnyddio'.

46. Pan gyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 8 Ardaloedd Chwilio Strategol yn 2005, cyflwynodd Llywodraeth Cymru darged o gynhyrchu pedwar terawatt o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010 a saith terawatt erbyn 2012. Erbyn 2010, dim ond tri terawatt o ynni oedd yn cael ei gynhyrchu gan ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru, er bod Llywodraeth Cymru'n honni bod pump terawatt arall naill ai wedi'u cynnig, wedi'u cymeradwyo neu yn y system gynllunio.

47. Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 a'r Ardaloedd Chwilio Strategol eu hunain wedi'u barnu gan rai, gyda cheisiadau i'r polisi o ganoli datblygiadau ynni gwynt yn faes penodol y dylid ei adolygu. Mae rhai datblygiadau wedi'u llesteirio hefyd mewn rhai ardaloedd oherwydd absenoldeb llinellau trosglwyddo a phroblemau cludiant oherwydd rhwydweithiau gwael.

48. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai'n parhau gyda chynllun ynni'r llanw ar Aber Hafren, er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn parhau i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer defnyddio ynni'r llanw yn y dyfodol.

49. Mae'r mater o roi caniatâd cynllunio ar gyfer cynlluniau cynhyrchu pŵer sy'n fwy na 50MW yn parhau i fod yn bwnc llosg, gyda Llywodraeth Cymru'n awyddus i'r cyfrifoldeb dros y cynlluniau hyn gael ei ddatganoli iddi o'r Adran dros Ynni a Newid Hinsawdd. Argynhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad Cynllunio y dylai Llywodraeth Cymru barhau i alw i'r pwerau hyn gael eu datganoli, ond mae'r Pwyllgor hefyd yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru esbonio'n glir pa strwythurau fyddai'n cael eu sefydlu i ddelio â'r penderfyniadau hyn ar ôl iddynt gael eu datganoli.

50. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf ystyried cynnal ymchwiliad pellgyrhaeddol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru.**

### *Targedau*

51. Roedd y targedau gwahanol sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru yn fater a oedd yn codi'n gyson yn ystod nifer o ymchwiliadau'r Pwyllgor, yn cynnwys yr ymchwiliadau i fioamrywiaeth, lleihau allyriadau carbon, cynllunio a phrif-ffrydio cynaliadwyedd.

52. Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliadau hyn yn cyfeirio at dargedau sy'n gwrthdaro neu'n cystadlu, sy'n cael eu pennu'n aml gan y Llywodraeth heb yr ymrwymiad adnoddau angenrheidiol i'w cyflawni. Mewn rhai achosion, yr oedd y Pwyllgor o'r farn bod pennu targed yn cael ei ystyried yn gyflawniad polisi ei hun, ond nad oedd Llywodraeth Cymru wedyn yn barod i gymryd cyfrifoldeb dros gyflawni'r amcanion a bennwyd.

53. Mae'r Pwyllgor yn bryderus bod yna duedd i bennu targedau hirdymor afrealistig, yn hytrach na chanolbwyntio ar amcanion cam wrth gam tymor byr. Mewn rhai achosion, nid oedd yna fesurau digonol ar waith hyd yn oed i fonitro cynnydd tuag at y targedau a oedd wedi'u pennu.

54. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf edrych ar dargedau fel rhan o bob ymchwiliad y maent yn berthnasol iddynt, ac y dylai'r Pwyllgor ystyried cynnal darn o waith trawsbynciol ar dargedau Llywodraeth Cymru o fewn y sector, gan ystyried y materion a amlinellwyd uchod mewn ffordd gyfannol.**

### *Rheoliadau adeiladu*

55. Mae rheoliadau adeiladu yn sicrhau iechyd a diogelwch pobl mewn adeiladau ac o amgylch adeiladau drwy ddarparu gofynion ymarferol ar gyfer cynllunio ac adeiladu adeiladau. Maent hefyd yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau a chyfrannu at y gwaith o ddiwallu anghenion pobl anabl. Mae Isadran Rheoliadau Adeiladu'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am y Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd.

56. Fodd bynnag, cymeradwywyd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ym mis Tachwedd 2009 i drosglwyddo pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau adeiladu ar gyfer adeiladau yng Nghymru i Weinidogion Cymru a hynny'n dod i rym o 31 Rhagfyr 2011.

57. Prif gymhelliad Llywodraeth y Cynulliad dros sicrhau bod y rheoliadau adeiladu'n cael eu datganoli oedd sicrhau bod adeiladau yng Nghymru yn fwy ynni effeithlon a chynaliadwy. Mae'r amgylchedd adeiledig yn cynhyrchu tua 40 y cant o'r holl allyriadau carbon yn y DU. Uchelgais effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y bydd pob adeilad newydd yn ddi-garbon.

58. Mae datganoli'r rheoliadau'n cyflwyno her bosibl yn nhermau capasiti ac adnoddau Llywodraeth Cymru. Mae cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12 yn dyrannu £700,000 i'r gwaith o ddatblygu rheoliadau newydd, ond mae Gweinidogion Cymru wedi awgrymu yn y gorffennol y bydd angen buddsoddiad o £10 miliwn i sicrhau'r capasiti gofynnol.

59. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf gynnal ymchwiliad i baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer datganoli rheoliadau adeiladu, a chynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer rheoliadau newydd.**

### *Erydu arfordirol / llifogydd llanw*

60. Bydd erydu arfordirol a'r dulliau o ddelio â hyn yn fater a fydd yn datblygu i fod yn llawer pwysicach wrth i effeithiau llawn newid yn yr hinsawdd ar newidiadau i lefel y môr a digwyddiadau tywydd eithafol ddod i'r amlwg. Felly, mae penderfynu ai'r ymateb mwyaf priodol i erydu arfordirol mewn gwahanol ardaloedd yw dim ymyrraeth weithredol a gadael i'r arfordir ddatblygu'n naturiol, gwaith gorlifo tir o dan reolaeth, neu amddiffynfeydd gwell yn galw am gynllunio hirdymor.

61. Nid oedd ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Lifogydd a gynhaliwyd yn 2010 o'r farn mai llifogydd llanw ac amddiffynfeydd arfordirol oedd y mater a oedd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pryd. Roedd yr ymchwiliad hwnnw gan y Pwyllgor yn dilyn ymlaen o adroddiad beirniadol iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru 'Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010.

62. Canfu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod ddiffyg eglurder ynglŷn ag ymagwedd Llywodraeth Cymru, yn cynnwys a oedd y Rhaglen Dulliau Newydd yn parhau i fod yn berthnasol ai peidio, ac nad oedd gan randdeiliaid allweddol megis Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a rhai awdurdodau lleol syniad clir o ddull Llywodraeth Cymru, na sut y dylid ei weithredu. Canfu'r Pwyllgor hefyd bod angen i Lywodraeth Cymru ddechrau esbonio'r gwirioneddau anodd, yn ogystal â'r cyfleoedd, o fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risgiau ar gyfer rheoli risgiau erydu arfordirol a llifogydd llanw i'r cymunedau y bydd hyn yn effeithio arnynt.

63. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ddogfennau anstatudol sy'n asesu'r risgiau sy'n cael eu cyflwyno gan erydu arfordirol a llifogydd ac sy'n cyflwyno fframwaith polisi ar gyfer rheoli'r risgiau hyn yng Nghymru a Lloegr yn yr hirdymor. Mae pedwar Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer Cymru. Mae'r ail genhedlaeth o Gynlluniau Rheoli Traethlin wrthi'n cael eu datblygu ac ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu byddant yn cael eu gweithredu ar lefel leol drwy nifer o strategaethau megis y strategaethau rheoli risg llifogydd, ac efallai y bydd y Pwyllgor nesaf yn dymuno ystyried effeithiau'r rhain.

64. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf edrych yn fanwl ar erydu arfordirol ac amddiffynfeydd y môr, gyda'r bwriad o wneud argymhellion sy'n cynorthwyo gwaith Llywodraeth Cymru o ddatblygu strategaeth hirdymor realistig i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn.**

### Deddfwriaeth y DU

65. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi ystyried sawl darn o ddeddfwriaeth y DU, yn cynnwys y Bil Cynllunio, y Bil Rheoli Llifogydd a Dŵr, y Bil Morol a'r Bil Newid Hinsawdd.

66. Gallai deddfwriaethau canlynol y DU sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor nesaf.

*Y Bil Ynni*

67. Mae gan y Bil Ynni dri phrif amcan: mynd i'r afael â'r rhwystrau at fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni; gwella diogelwch ynni; a galluogi buddsoddiadau mewn cyflenwadau ynni carbon isel.

68. Trefnwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, Chris Huhne AS, annerch y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 10 Mawrth 2010 i ateb cwestiynau'r Aelodau ar y Bil. Yn anffodus fodd bynnag, cafodd y cyfarfod ei ganslo ar y funud olaf ac anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chyfres o gwestiynau ar y Bil.

69. **Pan fydd ymateb wedi dod i law wrth yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf ysgrifennu at y Pwyllgor Seneddol perthnasol sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil Ynni a rhoi ei sylwadau arno.**

*Y Bil Lleoleiddio*

70. Cyflwynwyd y Bil Lleoleiddio yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Llun 13 Rhagfyr gan y Gwir Anrh. Eric Pickles AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol. Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Frenhines ar 25 Mai 2010 a oedd yn datgan y byddai'n datganoli mwy o bwerau i gynghorau a chymdogaethau a rhoi rheolaeth i gymunedau lleol dros benderfyniadau ar dai a chynllunio. Mae llawer o gynnwys y Bil yn berthnasol i Loegr yn unig.

71. Mae'r Bil yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thri mater, yn cynnwys cymhwysedd mewn cysylltiad â cheisiadau cynllunio a system orfodi. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud ei bod yn ceisio sicrhau pwerau Bil dros yr agweddau hyn ar gynllunio, er mwyn gallu gweithredu mwy o argymhellion adolygiad GVA Grimley o'r system ceisiadau cynllunio ar yr adeg briodol.

72. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â phrosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru a Lloegr, yn arbennig diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ym mis Gorffennaf 2010 ei bod yn ceisio cael cyfarfod gyda Gweinidog y DU dros Gynllunio a Datganoli er mwyn dadlau y dylai'r Bil ddatganoli cyfrifoldebau hefyd dros gydsyniadau ynni mawr. Ar hyn o bryd fodd bynnag, nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer hyn.

73. Mae'r Bil hefyd yn gwneud diwygiadau i'r trefniadau ar gyfer casglu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Cyflwynwyd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol gan

Ddeddf Gynllunio 2008. Mae'n cael ei hystyried yn dreth ac o ganlyniad nid yw'r cyfrifoldeb drosti wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, mae'r Ardoll yn cyflwyno golygiadau i awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol ac ar gyfer defnyddio cytundebau Adran 106 yng Nghymru yn y dyfodol.

74. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar bob agwedd ar y Bil yn y papur ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (MRS) yn http://www.assemblywales.org/cy/11-003-cy.pdf

75. **Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor nesaf edrych ar ddarpariaethau'r Bil Lleoleiddio a'u heffaith bosibl ar Gymru, yn arbennig mewn cysylltiad â chynllunio a rhoi cydsyniad i brosiectau seilwaith mawr.**

### *Y Bil Cyrff Cyhoeddus*

76. Cyflwynwyd y *Bil Cyrff Cyhoeddus* i Dŷ'r Arglwyddi yn San Steffan. Hwn yw prif gyfrwng y Llywodraeth ar gyfer torri nifer y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, yn unol â'u haddewid. Bil "galluogi" ydyw i'r graddau y mae ei ddarpariaethau'n darparu pwerau gwneud Gorchmynion i Weinidogion mewn cysylltiad â'r cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Bil. Gallai hyn gynnwys eu haddasu, eu huno neu eu diddymu. Felly, mae'r Bil yn cael effaith ar draws nifer o feysydd polisi amrywiol sydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

77. Yng Nghymru, mae'r Bil wedi cael effaith benodol ar gyflenwi polisi amgylcheddol oherwydd byddai Cymalau 13 i 16 y Bil yn rhoi pwerau penodol i Weinidogion Cymru i ddiwygio cyrff amgylcheddol yng Nghymru. Gwnaed cais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y pwerau hyn er mwyn gallu gwneud newidiadau i swyddogaethau a strwythur Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CGGC) yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Newydd ar yr Amgylchedd.

78. Mae Cymal 13 yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn, yn amodol ar weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad, i addasu, diddymu neu ychwanegu at swyddogaethau CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru neu gorff newydd.

79. Mae'r pwerau hyn yn ddadleuol oherwydd, mewn gwirionedd, maent yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddfau Seneddol sy'n

ymwneud â materion nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r pŵer i lunio deddfau arnynt.

80. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar y Bil Cyrff Cyhoeddus a'i effaith ar Gymru yn y papur ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn http://www.assemblywales.org/cy/10-070-cy.pdf

81. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf fonitro cynnydd y Bil Cyrff Cyhoeddus a'r pwerau y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru dros gyrff amgylcheddol yng Nghymru. Efallai y bydd hefyd yn dymuno craffu ar ddefnydd dilynol Gweinidogion Cymru o'r pwerau hynny fel yr amlinellwyd yn yr adran 'Uno Cyrff Cyflenwi' uchod.**